

Noson yng nghwmni Manon Rhys a T James Jones

Annwyl bawb,

Ar ran Merched y Wawr Y Fenni, hoffwn eich gwahodd i Noson yng nghwmni Manon Rhys a T James Jones am 7.30 yr hwyr, Dydd Mawrth 26 Ionawr 2016, yn Llyfrgell Y Fenni.

Mae Manon Rhys yn adnabyddus fel nofelydd a bardd. Enillodd hi'r Goron yn Eisteddfod Maldwyn a'r Gororau 2015, ac enillodd hi'r Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Wrecsam 2011.

Mae T James Jones, Jim Parc Nest, yn gyn-Archdderwydd Cymru, ac yn adnabyddus fel bardd a dramodydd. Mae e wedi ennill y Goron dwywaith a'r Gadair unwaith.

Noson anffurfiol fydd, gyda Manon a Jim yn siarad ac yn darllen darnau o'u gwaith ac yn yn ateb cwestiynau o'r gynulleidfa. Bydd cyfle hefyd i weld Coron Eisteddfod Meifod a chlywed yr hanes y tu ôl iddi. Bydd lluniaeth ysgafn yn cael ei pharatoi yn ystod y noson. Cadeirir y noson ar y cyd gan Frank Olding a minnau.

£10 fydd pris mynediad, gan gynnwys lluniaeth, a thelir yr arian ar y drws ar y noson. Bydd pob elw yn mynd at Apêl Lleol Eisteddfod 2016.

Cymraeg fydd iaith y noson ac mae croeso ichi wahodd eich ffrindiau a theulu sy'n siarad Cymraeg.

Nifer cyfyngedig o seddi sydd ar gael yn y Llyfrgell, felly mae'r gwahoddiad yn mynd at aelodau o Gymreigyddion y Fenni, Clwb Gwawr y Fenni, a Merched y Wawr Y Fenni, a'u ffrindiau a theuluoedd yn y lle cyntaf. Telir yr arian ar y drws, ond er mwyn sicrhau lle, ac er mwyn paratoi lluniaeth, mae'n angenrheidiol ichi llogi sedd.

Er mwyn torri i lawr ar y gwaith o brintio a dosbarthu tocynnau, a fyddech mor garedig â chadw eich sedd drwy ddefnyddio'r linc isod. Nid oes rhaid ichi brintio tocyn, bydd rhestr o enwau ar gael ar y noson. Os nad ydych yn gysurus â defnyddio'r sustem yma, mae croeso ichi f'ebostio ar eirwenwilliams@yahoo.com neu ffonio 01873 830489.

http://www.eventbrite.com/e/noson-yng-nghwmni-manon-rhys-a-t-james-jones-tickets-20635144272?aff=utm_source%3Ddeb_email%26utm_medium%3Demail%26utm_campaign%3Dnew_event_email&utm_term=eventurl_text

A wnewch chi ateb, os gwelwch yn dda erbyn 15 Ionawr, er mwyn rhoi cyfle inni hysbysebu'r digwyddiad yn ehangach os bydd lleoedd ar ôl.

Rwy'n edrych ymlaen at weld cynifer ohonoch â phosib yno gan mai hwn yw un o'r ychydig ddigwyddiadau gwbl Gymraeg ei iaith, ac er mwyn sicrhau cynulleidfa teilwng i ddau o lenorion blaenllaw Cymru gyfoes.

Cofion

Eirwen



**Eisteddfod Genedlaethol
Sir Fynwy a'r Cyffiniau
National Eisteddfod
Monmouthshire and District**
29 Gorffennaf – 6 Awst 2016 /
29 July – 6 August 2016